# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
|---|---|
| **Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel** | **Naomi Stocks** |
| Dyddiad: Dydd Mercher, 23 Hydref 2019 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.20 | 0300 200 6222 |
| | SeneddCymunedau@cynulliad.cymru |

## Rhag-gyfarfod preifat (09.20 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Cyllideb llywodraeth leol

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 18)

Guto Ifan, Canolfan Llywodraethiant Cymru

Cian Sion, Canolfan Llywodraethiant Cymru

Emma Taylor-Collins, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Michael Trickey, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Adroddiadau

Canolfan Llywodraethu Cymru: Cut to the bone? An analysis of Local Government Finances in Wales, 2009-10 to 2017-18, and the outlook to 2023-24

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru : Wedi cyrraedd y pwynt tyngedfennol: Llywodraeth leol Cymru a chyni

## 3 Papurau i'w nodi

(Tudalen 19)

3.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ynglŷn â Chynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru – 15 Hydref 2019

(Tudalen 20)

3.2 Adroddiad Cymorth Cymru: Allgymorth Grymusol – Egwyddorion ar gyfer Cymru

(Tudalennau 21 - 32)

3.3 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am Hawliau Plant yng Nghymru

(Tudalennau 33 - 34)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.00)

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Cyllideb llywodraeth leol – trafod y dystiolaeth

(11.00 - 11.15)

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**23 Hydref 2019 – clawr y papurau i'w nodi**

| **Rhif y papur** | **Mater** | **Oddi wrth** | **Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| ELGC(5)-29-19 Papur 1 | Ymchwiliad i Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwystra a Gweithredu | Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth | I'w nodi |
| ELGC(5)-29-19 Papur 2 | Ymchwiliad i gysgu ar y stryd yng Nghymru | Cymorth Cymru | I'w nodi |
| ELGC(5)-29-19 Papur 3 | Hawliau plant yng Nghymru | Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | I'w nodi |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Papur 1 - Llywodraeth Cymru
Paper 1 - Welsh Governmnet

John Griffiths AC,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

15 Hydref 2019

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr arall mewn perthynas â'm hymateb i argymhellion 4, 9, 10 ac 11 o adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwystra a Gweithredu.

Rwyf wedi adolygu fy ymatebion a chredaf fod "gwrthod" yn adlewyrchu'n glir safbwynt Llywodraeth Cymru o safbwynt pwy ddylai wneud y penderfyniad, a'i gallu i sbarduno'r newid a gynigir o fewn amserlen resymol. Ni ddylai'r ffaith fy mod yn gwrthod yr argymhellion hyn, fodd bynnag, awgrymu nad wyf yn barod i weithredu gan ddefnyddio dulliau ymyrryd eraill.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau rhagor o gysondeb o safbwynt ymdrin â cheisiadau a gaiff eu gwrthod. Byddwn hefyd yn trafod â'r awdurdodau a fyddent yn barod i ehangu trefniadau parcio'n rhatach. Os bydd awdurdodau'n barod i wneud hyn byddwn yn cynnig cymorth er mwyn trafod a oes cyfle i wneud hynny.

Yn olaf, bydd fy swyddogion yn parhau i drafod y canllawiau presennol ag awdurdodau lleol, a chroesawaf bob cyfle i wella'r cynnwys neu'r defnydd ohonynt ac i sicrhau eu bod yn parhau'n ddefnyddiol ar gyfer awdurdodau lleol.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Papur 2 - Llywodraeth Cymru
Paper 2 - Welsh Governmnet

Eitem 3.2

cymorth cymru
cysylltu • cryfhau • dylanwadu

# Allgymorth Grymusol:
# Egwyddorion ar gyfer Cymru



**Hydref 2019**

## Ynglŷn â'r prosiect

Ariannwyd y gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru. Cafodd ei ddatblygu, ei ysgrifennu a'i ddylunio gan Cymorth Cymru mewn partneriaeth â darparwyr digartrefedd, tai a gwasanaethau cymorth yng Nghymru.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Ynglŷn â Cymorth Cymru

Cymorth Cymru yw'r corff trosfwaol ar gyfer darparwyrcgwasanaethau digartrefedd, cymorth ym maes tai a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae ein haelodau'n darparu ystod eang o wasanaethau sy'n rhoi cymorth i bobl ymdopi â chyfnodau anodd, ailadeiladu eu hynanhyder, a byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Rydym yn gweithredu fel llais y sector, gan ddylanwadu ar ddatblygu a gweithredu polisïau, deddfwriaeth ac ymarfer sy'n effeithio ar ein haelodau ac ar y bobl maent yn estyn cymorth iddynt. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, ein haelodau a'n partneriaid, i greu newid. Credwn y gallwn, gyda'n gilydd, gael mwy o effaith ar fywydau pobl.

Rydym yn awyddus i fod yn rhan o fudiad cymdeithasol sy'n rhoi terfyn ar ddigartrefedd a chreu Cymru lle gall pawb fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, a ffynnu yn eu cymunedau.

www.cymorthcymru.org.uk
enquiries@cymorthcymru.org.uk
02920 553687
@CymorthCymru

# Allgymorth Grymusol: Egwyddorion ar gyfer Cymru

**Ffocysu ar dai**

**Bod yn hyblyg**

**Bod yn person-ganolog, pwrpasol a pharhaus**

**Cael eu harwain gan ddewis**

**Bod yn gyson**

**Bod yn wybodus**

**Bod yn seicolegol-wybodus ac yn drawma-wybodus**

**Bod yn bartner**

## Cwmpas a phwrpas

Ar ran Llywodraeth Cymru, aeth Cymorth Cymru ati i ymgysylltu â'r sector sy'n ymwneud â'r maes cymorth tai, er mwyn mesur y ddealltwriaeth ranbarthol o'r model allgymorth grymusol, nodi ardaloedd lle mae allgymorth grymusol yn cael ei gyflawni, ac adolygu llenyddiaeth gefnogi. Gwnaed hyn gyda'r bwriad o amlinellu sut y dylai'r model allgymorth pendant edrych yn ymarferol, y ffactorau llwyddiant a'r rhwystrau wrth geisio ei gyflenwi, ac argymhellion ar gyfer egwyddorion.

Casglodd Cymorth Cymru gwahanol farn a safbwyntiau trwy ddefnyddio tri dull:

- Cyfweliadau manwl gydag ymchwilwyr ac ymarferwyr mewn sefydliadau perthnasol;
- Tri diwrnod o gyfarfodydd grwpiau ffocws a gynhaliwyd ledled Cymru;
- Arolwg a gylchredwyd i'n haelodau ac i'r sector.

## Profiadau darparwyr, awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) ledled Cymru

Dangoswyd cryn amrywiaeth o ran profiad ac arbenigedd ymhlith y rhai y buom yn ymgynghori â hwy dros gyfnod y prosiect. Roedd hyn yn amrywio o'r rhai a chanddynt ond ychydig o brofiad uniongyrchol o gyflawni prosiectau allgymorth grymusol (ond a oedd wedi rhyngweithio â chyrff oedd wedi gwneud hynny), ynghyd ag unigolion a chyrff oedd yn benodol wedi mynd ati i greu gwasanaethau a adeiladwyd ar ac o gwmpas strwythurau allgymorth grymusol.

Mae lefel yr wybodaeth a rannwyd â Cymorth drwy gydol y prosiect yn dangos bod y model allgymorth grymusol eisoes yn cael ei gyflawni ledled Cymru, a hynny i safon uchel iawn mewn rhai ardaloedd. Oherwydd hynny, dylai unrhyw egwyddorion a argymhellir wrth symud ymlaen gydnabod y gwaith hwn mewn modd gweithredol, a dylid cyflwyno'r argymhellion mewn dull sy'n sensitif i'r sefyllfa.

Ynghyd â'r adolygiad o lenyddiaeth gefnogi, mae'r sylwadau a rannwyd o'r grwpiau ffocws a thrwy'r adolygiad wedi eu cyfuno i ffurfio'r ddogfen hon.

## Themâu allweddol a nodwyd o'r ymchwil:

Mae'r ymchwil yn nodi pedwar thema allweddol yng nghyd-destun allgymorth grymusol:

- Wedi ei ffocysu ar ddarparu tai i bobl
- Parhaus a phwrpasol
- Person-ganolog
- Aml-ddisgyblaethol

## Allwedd i'r themâu a nodwyd gan ymarferwyr:

Er mwyn adeiladu ar y themâu, trafodwyd hwy fel rhan o'r cyfweliadau manwl a'r dyddiau grwpiau ffocws. Nodwyd nifer o themâu amlwg gan ein grwpiau ffocws.

### Yr angen am ddulliau anhraddodiadol o ymgysylltu

Roedd ymarferwyr yn cydnabod nad yw dulliau traddodiadol o ymgysylltu yn aml yn llwyddo'n dda gyda'r rhai hynny sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth gymorth. Roeddynt yn cydnabod hefyd fod angen cael gwared ar y defnydd o iaith megis 'anodd eu cyrraedd', ac yn lle hynny defnyddio cysyniadau megis 'angen eu cyrraedd'. O ganlyniad, mae'r ail-lunio hwn yn arwain gwasanaethau ar bob lefel i'w herio'u hunain yn fewnol ynghylch sut orau i gael pobl sydd ag angen cymorth i ymgysylltu.

Y thema a ddaeth i'r amlwg yn fwyaf cyson yw nad oes y fath beth ag un ateb sy'n addas ar gyfer pawb. Mewn sawl cam, codwyd y pwynt fod cyfeirio neu ymgysylltu yn digwydd yn aml mewn modd anffurfiol, e.e. ar lafar, os treuliwyd amser i adeiladu perthynas rhwng pobl a'i gilydd. Awgrymwyd technegau oedd yn wasgarog ac wedi'u targedu fel modd o ymgysylltu, gan olygu y dylai gweithwyr allgymorth fod yn bellgyrhaeddol ac yn eang eu cwmpas, ond bod ganddynt yr hyblygrwydd i ddefnyddio ymyriadau hynod benodol lle bo angen.

Mae cyllidebau unigol yn un enghraifft o hyn. Gall holi pobl am eu bywyd yn gyffredinol, eu nodau a'u dyheadau fod yn fan cychwyn – gan dynnu'r pwyslais oddi ar 'wthio' neges neu gynnig mae'r unigolyn eisoes wedi ei wrthod.  Dylid cael rhesymeg clir ar gyfer gweithgareddau neu ymyriadau sy'n cychwyn gyda lleihau niwed ac ymgysylltiad, ond y mae cysylltiad clir rhyngddo a chanlyniadau a ddiffinnir gyda'r unigolyn ar gyfer gwella eu lles. Er enghraifft, gall offer pysgota gynnig mynediad at gymuned o bobl, a rhoi cyfle i berson ymlacio heb gael eu gweld fel rhywun gwrth-gymdeithasol. Gallai set deledu a thrwydded ei gwneud yn haws i rywun aros mewn fflat, er eu bod wedi cael trafferth i wneud hynny yn y gorffennol.

Un pwynt a godwyd gan ymarferydd arbenigol yw'r angen am i weithwyr allgymorth allu gweld pobl mewn lleoliadau eraill, megis swyddfeydd heddlu (os ydynt wedi cael eu harestio), adrannau damweiniau ac achosion brys (os ydynt yn sâl neu wedi cael anaf), neu hyd yn oed unedau iechyd meddwl (os ydynt mewn cyflwr trallodus). Rhaid i dimau allgymorth hefyd fynd i mewn i barciau, meysydd parcio a lleoliadau eraill nad ydynt ar ffyrdd agored. Gall pobl fod yn cuddio er mwyn teimlo'n ddiogel, ond mae'n bwysig nad ydynt yn cael eu hamddifadu o'r gwasanaeth allgymorth a gynigir i bobl mewn lleoliadau mwy amlwg.

Mae angen i wasanaethau allgymorth gychwyn yn ddim hwyrach na 5am a dylent gynnwys shifftiau hwyr sy'n mynd allan ar ôl hanner nos (neu 1am, yn achos Caerdydd a dinasoedd eraill lle mae yna fywyd nos bywiog). Rhaid gwneud yn fawr o bob cyfle i gysylltu, hyd yn oed os yw hyn yn golygu deffro pobl, gan ei fod yn gyfle i ailadrodd y cynnig o gymorth a gallai fod yn amser da i rywun ymgysylltu.

Awgrymodd un ymarferydd arbenigol hefyd y dylai timau allgymorth ystyried 'rhyddhau' rhai gweithwyr o shifft nos ambell noson yn yr wythnos, i'w galluogi i gymryd rhan mewn gwaith allgymorth gydag unigolion yn ystod y dydd – gan adeiladu ar gysylltiadau a sefydlwyd ar adegau eraill.

## Yr angen am ymgysylltu aml-asiantaeth

Gan fod hyn wedi codi dro ar ôl tro, nid oedd yn syndod bod ymgysylltu aml-asiantaeth wedi dod i ben y rhestr – ac felly y dylai fod. Mae cymorth aml-asiantaeth neu 'gofleidiol' yn ffactor allweddol yn y llenyddiaeth ymchwil sy'n bodoli eisoes ar allgymorth grymusol.

Roedd yr asiantaethau allweddol a nodwyd yn cynnwys yr heddlu, adrannau damweiniau ysbytai, trefniadau rhyddhau o'r ysbyty, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Cafodd y rhain hefyd eu nodi fel cyrff a sefydliadau y mae angen iddynt wella'u dull o weithio mewn partneriaeth, cynyddu eu hymwybyddiaeth o allgymorth grymusol, neu fabwysiadu'n fewnol y dull hwnnw o weithio. Yn rhy aml o lawer, mae pobl yn dechrau ymgysylltu, ond yna mae ymyrraeth gan wasanaeth gwahanol yn gallu eu bwrw'n ôl i sefyllfa o 'ddiffyg ymgysylltiad'. Yn rhy aml mae pobl yn dechrau ymgysylltu ag un gwasanaeth, ond bod ymyriad gan wasanaeth gwahanol yn eu bwrw'n ôl i sefyllfa o 'ddiffyg ymgysylltiad'. Mae angen i bob asiantaeth partner fod yn ymwybodol o egwyddorion allgymorth pendant, a pha wasanaeth fyddai'n fwyaf effeithiol ar gyfer pob person a'u hanghenion cymorth unigol. Dylai'r person sydd ag angen cymorth nodi eu hanghenion eu hunain, gyda gwasanaethau wedyn yn sicrhau bod y person yn cael help i sicrhau mynediad at y gwasanaeth hwnnw.

Mae arferion comisiynu yn holl bwysig i sicrhau bod allgymorth pendant yn gallu bod yn effeithiol, a'i fod yn cynnig i bobl yr asesiad arbenigol mae arnynt ei angen, yn y fan lle maen nhw wedi sefydlu. Mae'n bwysig nodi, felly, y dylai'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau allgymorth pendant gynnwys gweithwyr arbenigol, megis meddygon teulu, gweithwyr proffesiynol ym meysydd cyffuriau ac alcohol, arbenigwyr iechyd meddwl, seiciatryddion a mwy. Bydd hyn yn galluogi person i gael y cyngor arbenigol, yr asesiadau a'r cymorth mae arnynt ei angen, pryd a lle bynnag maen nhw'n barod i ymgysylltu, yn hytrach na'u gorfodi i fynd i rywle arall neu geisio ymdopi â'r system apwyntiadau.

Os na ellir mynd â'r gwasanaeth arbenigol at y person, yna dylai gweithwyr allgymorth pendant fynd â phobl yn uniongyrchol at y gwasanaethau hyn, yn hytrach na dim ond eu crybwyll neu eu hatgyfeirio atynt, oherwydd gallai hyn arwain at fethiant arall yn y system a'r person yn methu cael y cymorth angenrheidiol. Dylai gwasanaethau ychwanegol fod yn rhai 'cofleidiol' ar gyfer unigolion, gyda chyn lleied o oedi ag sy'n bosib, fel bod modd cynnig cymorth holistaidd yn yr union fan ac ar yr union adeg y mae angen amdano.

Ymhellach, mae angen i wasanaethau a sectorau eraill sy'n adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru gael eu hariannu er mwyn cynnig llwybrau hyblyg at wasanaethau digartrefedd, ac yn benodol felly y gwasanaethau allgymorth. Er enghraifft, mae angen i drefniadau rhyddhau o'r ysbyty gael eu cysylltu'n fwy cyson â gwasanaethau digartrefedd; gallai shifftiau'r gwasanaeth ambiwlans gynnwys gweithwyr sy'n rhoi cyngor ar dai, neu weithwyr allgymorth; a gallai gwasanaethau cyffuriau ac alcohol gynnig naloxone ar y strydoedd. Rhai enghreifftiau penodol yn unig yw'r rhain, ond y mae llawer mwy y gellid ei wneud i sicrhau bod yr holl wasanaethau'n rhai pendant, a'u bod i gyd yn ymestyn y tu hwnt i'w ffiniau traddodiadol.

## Yr angen am amynedd, ac ymarferwyr sy'n emosiynol-wybodus

Y sylfaen ar gyfer allgymorth grymusol yw sgiliau ac effeithiolrwydd yr ymarferwyr – nid o ran eu gwybodaeth, o angenrheidrwydd, ond o ran eu dull o ymarfer. Sawl tro, pwysleisiwyd pwysigrwydd gweithio mewn dull sy'n seiliedig ar berthynas, a hynny fel ffordd o gefnogi'r dulliau anhraddodiadol o ymgysylltu. Nodwyd mai adeiladu perthynas â phobl yn seiliedig ar ymddiriedaeth, gonestrwydd ac uniondeb, a hynny'n ddi-oed ond mewn modd effeithiol, oedd y sgìl unigol pwysicaf y dylai ymarferydd allgymorth grymusol feddu arno.

Mae sicrhau bod ymarferwyr rheng-flaen yn drawma-ymwybodol, a bod amgylcheddau'n cael eu gosod i fyny i fod yn wybodus yn seicolegol, yn holl bwysig. Mae priodweddau syml – e.e. synnwyr digrifwch, bod yn amyneddgar, a chaniatáu i unigolyn ymgysylltu yn ei amser ei hun ac ar ei delerau ei hun – yn angenrheidiol i sicrhau bod yr allgymorth grymusol yn llwyddo.

Un elfen a nodwyd fel rhywbeth sy'n rhwystro hyn rhag digwydd yw'r cyfrifoldebau cynyddol a'r llwyth gwaith a osodir ar staff rheng-flaen ym maes cymorth. Gall y pwysau cynyddol yma arwain at ludded corfforol, gor-flinder emosiynol, cyfarfyddiadau brysiog a throsiant uchel ymhlith y staff – a'r cyfan o'r rhain yn rhwystro pobl rhag datblygu perthynas agos â'i gilydd.

Fel y crybwyllwyd uchod, mae gonestrwydd yn holl bwysig. Mae angen i dimau allgymorth ystyried unigolion fel arbenigwyr ar eu gofal a'u deilliannau eu hunain. Gall hyn helpu pobl sy'n cysgu ar y stryd i fod yn fwy annibynnol, gwneud eu dewisiadau eu hunain a chael rheolaeth dros eu bywydau; gallant hefyd weld yr effaith mae eu hymddygiad a'u dewisiadau yn ei chael arnynt hwy eu hunain. Ar brydiau, bydd rhai dulliau o ymddwyn a rhai dewisiadau yn gofyn am ymyriadau gorfodol, ond dylent bob amser fod yn rhan o becyn holistaidd a hwnnw wedi'i amseru'n briodol. Weithiau bydd angen i dimau allgymorth wneud dewisiadau anodd, ond dylai'r rhain bob amser gael eu darparu ochr yn ochr â hyfforddiant neu ymyriadau eraill tebyg.

## Yr angen am i'r gwasanaeth fod yn gyson ac yn barhaus

Mae'r ymarfer yn seiliedig ar berthynas, sy'n sylfaen i allgymorth grymusol, yn gofyn am gysondeb o ran ymarfer a'r dull o weithio, hyd yn oed os yw ymyriadau penodol wedi eu teilwra ar gyfer yr unigolyn. Mae hyn yn golygu os bydd person yn ymgysylltu, neu os gofynnir iddynt ymgysylltu, dylent bob amser gael eu trin mewn dull cyson, a hwnnw'n seiliedig ar werthoedd – hyd yn oed os byddant yn dewis gwasanaethau gwahanol ar ddiwedd y dydd.

Yn ogystal, dylai unigolion gael cyfleoedd parhaus i ymgysylltu. O'r wybodaeth a rannwyd, nodwyd y gellid gofyn i berson ar ryw ddiwrnod arbennig, a gallent fod mewn cyflwr meddyliol neu emosiynol cwbl wahanol y diwrnod canlynol, o ganlyniad i ystod o ffactorau. Os yw person yn rhoi 'na' fel ateb i gynnig un diwrnod, ni ddylai hynny olygu eu bod wedi colli eu cyfle; ni ddylai cynigion ddod i ben, ond yn hytrach gallant gael eu newid a'u haddasu i gwrdd ag anghenion pob person a'u hanghenion unigol.

Ni ellir rhoi terfyn amser ar weithio gyda'r grŵp penodol hwn o bobl, ac ni ddylid cyflwyno iddynt unrhyw feini prawf ynghylch sawl tro y gallant wrthod cymorth. Rhaid i'r cyfan fod yn ben-agored, a dylai'r cymorth fod yn 'ludiog'.

Er na ddylai cynigion ddod â 'therfyn amser' ynghlwm wrthynt, rhaid hefyd gael gonestrwydd clir a chyson gan y timau allgymorth ynghylch beth sy'n bosibl. Efallai y bydd angen gwyro oddi wrth rhyw gynnig cychwynnol, neu fel arall gallai dim ond ailadrodd cynnig sydd eisoes wedi cael ei wrthod gael ei weld fel rhywbeth o natur gorfodol. Yn hytrach, dylai'r mantra nodi bod unigolion yn cael cynnig rhywbeth gwell na'r hyn sydd ganddynt ar y pryd – felly gallai fod yn fynediad i westy gwely a brecwast am y noson, os nad ydynt yn teimlo'n ddiogel mewn hostel.

Dylai allgymorth hefyd gymryd ffurf gwahanol ddewisiadau o ran gwasanaethau. Er enghraifft, gall holi pobl am eu dyheadau a'u nodau ehangach dynnu'r pwysau oddi ar ailadrodd cynnig mae unigolyn eisoes wedi ei wrthod.

Yn yr un modd, mae angen hefyd i unigolyn fod yn bwrpasol, gan fod gweithio ar gyflymder unigolyn weithiau'n gallu gweithredu fel cuddfwg. Dylai'r ymarferydd, felly, fod yn rhagweithiol wrth annog pobl, adeiladu perthynas, a helpu pobl i sylweddoli eu bod mewn gwirionedd yn awyddus i newid. Er enghraifft, mae symud i ffwrdd oddi wrth leihau niwed a thuag at feddwl am adferiad yn un dull o fynd i'r afael â'r cydbwysedd delicet y bydd hyn yn gofyn amdano.

## Yr angen am 'becyn' o wahanol ddulliau gweithredu

Nid oes unrhyw un dull o weithio yn addas ar gyfer pawb. Dylai ymarferwyr gael cymorth i ddatblygu 'pecyn' o ddulliau, a chael cyfle i gynnig ystod o ddewisiadau tai, megis cymysgedd o ddarpariaeth wlyb a sych (h.y. llety lle caniateir alcohol, o'i gymharu â llety lle na chaniateir alcohol), amrywiaeth o ran hyd y cyfnodau aros, a hyblygrwydd yn y cysylltiad rhwng cymorth a thai.

Mae hyn yn gweithio orau pan fo darparwyr yn cael cyfle i feddwl mewn ffordd greadigol. Y nod y dylid ymgyrraedd ato yw datblygu amgylcheddau a pherthynas waith lle mae sefydliadau ac unigolion yn gofyn iddynt eu hunain pa wasanaethau sydd ar gael eisoes, a sut y gellid adeiladu dull allgymorth grymusol yn ychwanegol at hynny – er enghraifft, defnyddio clybiau brecwast sy'n bodoli eisoes, neu drefnu i wasanaethau cymorth llai o faint ddod at ei gilydd fel 'cyfeillion' i greu tîm allgymorth grymusol ar gyfer yr ardal.

## Yr angen am amgylchedd sy'n hyblyg a ffafriol ei naws

Lle bo pobl yn cael eu gofyn i ymgysylltu mewn modd traddodiadol (swyddfa Opsiynau Tai, er enghraifft), dylai'r amgylcheddau fod yn wybodus yn seicolegol. Pan drefnir i gwrdd ag unigolion ar y stryd, neu mewn lleoliadau allgymorth eraill, dylid cymryd pob gofal posibl i sicrhau bod y person yn cael croeso ac yn teimlo'n gysurus.

## Gwahanu sefydliadau oddi wrth allgymorth

Rhannodd ymarferwyr a chanddynt brofiad o gyflawni gwasanaeth allgymorth grymusol yr wybodaeth eu bod weithiau'n gweld bod rhai pobl yn cael eu hatal rhag ymgysylltu os yw'r swyddog allgymorth grymusol yn gysylltiedig â rhyw asiantaeth benodol. Gall hyn ddigwydd am nifer o resymau.

Er enghraifft, gallai person gael trafferth i ymddiried mewn sefydliad sydd yn flaenorol wedi penderfynu nad oes ganddynt hawl i dai (e.e. angen blaenoriaethol) neu wasanaethau eraill. Enghraifft arall, efallai, fyddai sefydliad sy'n darparu lle mewn hostel neu lety â chymorth lle mae'r person wedi cael profiad negyddol.

Gall gwahanu gweithwyr allgymorth oddi wrth sefydliadau eraill helpu i roi'r teimlad eu bod yn froceriaid gonest, ar ochr y person sy'n cysgu ar y stryd yn hytrach nag yn rhan o'r system ddigartrefedd amhersonol. Yn ogystal, nododd ein grwpiau ffocws pan fo timau allgymorth pendant yn gwisgo dillad arferol, roedd y gwasanaethau'n sylwi bod yr ymateb yn llawer mwy positif, a'r timau'n gallu adeiladu perthynas ar sail un-i-un.

## Dewis sy'n ystyrlon ac yn ddyheadol

Mae dewis, a'r hawl sydd gan berson i ddewis, yn ffactor allweddol yng nghyd-destun allgymorth grymusol. Tra bod Cymorth Cymru yn hyrwyddo'r gred nad oes neb yn dewis cysgu ar y stryd, rydym yn cydnabod y gallai person, pan fydd yn derbyn cynnig, deimlo nad yw mewn sefyllfa i dderbyn y cynnig hwnnw, ac o ganlyniad y bydd yn parhau i gysgu ar y stryd.

Er mwyn i gynigion fod yn ddewis, rhaid iddynt fod yn ystyrlon i'r person, a chael eu gweld fel modd dyheadol o gefnogi'r person hwnnw i ffynnu, yn hytrach na dim ond gosod pobl mewn llety (sydd weithiau'n anaddas) a thynnu'r gefnogaeth yn ôl. Rhaid i ddewis fod wrth galon y model allgymorth grymusol, ac mae Cymorth Cymru yn credu y byddai dull a arweinir gan berson yn meithrin hyn.

## Adeiladu’r egwyddorion

Gan dynnu ar y themâu a’r rhwystrau a nodwyd uchod, a’r tair thema allweddol a nodwyd gan y grŵp ffocus ar lenyddiaeth ymchwil, gofynnwyd i’r mynychwyr ddrafftio’r hyn roeddynt hwy’n eu hystyried fel yr egwyddorion allweddol – defnyddiodd Cymorth Cymru y rhain i greu’r egwyddorion allweddol sydd wedi’u hargymell isod.

### Ffocysu ar dai

Mae ffocws yr ymchwil a wnaed dros y blynyddoedd wedi dangos yn glir mai maes tai ddylai fod yn brif nod yr allgymorth grymusol. Mae hyn hefyd yn galw am ffocws cryfach ar Tai yn Gyntaf ac ailgartrefu brys, yn hytrach nag ar wasanaethau traddodiadol megis hosteli.

### Bod yn hyblyg

Bod yn hyblyg o ran lleoliadau gwaith – efallai nad yw’r bobl ac arnynt fwyaf o angen cymorth mewn sefyllfa i gydymffurfio ag oriau agor ac apwyntiadau ar adegau arbennig, neu efallai nad ydynt yn y mannau lle disgwyliwch iddynt fod.

Bod yn barod gyda’r atebion priodol i ymateb yn gyflym pan fo person yn barod i ymgysylltu.

Nid oes unrhyw un ateb sy’n addas i bawb, felly dylai cyrff fod yn hyblyg ac yn barod i roi cynnig ar bethau newydd gyda’r bobl maent yn gweithio gyda hwy.

Gweithio i wneud cynigion ystyrlon y tu hwnt i faes llety (e.e. cymuned, ffrindiau, cymorth).

### Bod yn person-ganolog, pwrpasol a pharhaus

Ymdrin â phob cyfarfyddiad fel cyfle, a bod yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â phobl.

Bod yn hyblyg, yn drylwyr ac yn ymatebol yn eich ffordd o weithio.

Mabwysiadu dull person-ganolog o weithio, lle bo’r person yn bartner allweddol yn y broses o nodi’r math o gymorth sy’n briodol iddynt hwy.

Parchu dewis person i wrthod cynnig ar y cyfle cyntaf, ond penderfynu ei dderbyn ar ryw adeg arall.

Cymryd ystyriaeth o’r amser mae’n ei gymryd i adeiladu ymddiriedaeth a pherthynas lle gall person deimlo’n ddigon cysurus i ymgysylltu â gwasanaethau.

Teilwra pob pecyn cymorth yn ôl anghenion y person rydych yn ei helpu.

Gweithio i greu cynigion sy’n realistig, ond ar yr un pryd yn ystyrlon ac yn ddyheadol.

Edrych ar y rhesymau pam fod person yn gwrthod cynnig nifer o weithiau (lleoliad, tŷ gwlyb ac ati) a gweld lle gellid addasu cynigion i gwrdd ag anghenion y person.

Osgoi ‘allgymorth ymosodol’, e.e. rhoi wltimatwm, labelu pobl sy’n gwrthod cynigion fel rhai nad ydynt yn fodlon ymgysylltu, ailadrodd dro ar ôl tro unrhyw gynigion nad yw’r person mewn sefyllfa i’w derbyn, bygwth gweithredu os nad yw cynnig yn cael ei dderbyn.

Gweithio tuag at ddefnyddio iaith newydd a dulliau newydd o ddisgrifio'r bobl rydych yn gweithio gyda hwy, gan osgoi termau fel "anodd eu cyrraedd", a defnyddio cysyniadau fel "angen eu cyrraedd", neu debyg, yn eu lle.

Dylid ymddiried mewn pobl i ddeall eu hanghenion eu hunain a gofyn am y cymorth a'r gwasanaethau mae arnynt eu hangen – hwy yw'r arbenigwyr yn eu straeon eu hunain.

## Cael eu harwain gan ddewis

Dylai cyrff sy'n darparu gwasanaethau allgymorth grymusol gydnabod y bydd unigolyn yn dewis ymgysylltu pan fydd y gwasanaeth, y berthynas neu'r prosiect cywir ar gael, a phan fyddant mewn sefyllfa i ymgysylltu. Nid yw allgymorth grymusol yn golygu gorfodi pobl i ymgysylltu, ond yn hytrach mae'n golygu gweithio gyda'r unigolyn hyd nes y bydd yn barod i ddewis ymgysylltu.

## Bod yn gyson

Dylai'r dull o ymdrin â phobl fod yn gyson ac yn sefydlog, yn yr ystyr na ddylai'r cysylltiad ddod i ben, a dylai'r agweddau a'r modd o ymgysylltu â phobl fod yn gyson (e.e. bod yn onest bob amser, gwrando bob amser). Nid gwneud yr un cynnig drosodd a throsodd yw ystyr allgymorth grymusol, ond yn hytrach cymhwyso'r egwyddorion hyn mewn modd cyson.

## Bod yn wybodus

Adeiladu basdata wybodaeth ynghylch asiantaethau partner a ble i gyfeirio pobl am gymorth gan y gwasanaeth mwyaf priodol.

Cyflawni'r model allgymorth grymusol ochr yn ochr â dulliau cydnabyddedig eraill (e.e. dulliau sy'n seicolegol-wybodus / sy'n drawma-wybodus).

## Bod yn seicolegol-wybodus ac yn drawma-wybodus

Dylai gwasanaethau sy'n cyflawni allgymorth grymusol fod â staff sydd wedi eu hyfforddi i gyflawni amgylcheddau sy'n seicolegol-wybodus / dulliau sy'n drawma-wybodus, i sicrhau bod pob cysylltiad mor effeithiol ag y bo modd pan yn ymgysylltu â phobl.

Mae gweithio yn y modd hwn yn dibynnu ar gael gweithlu sy'n cael cefnogaeth i fod yn wydn yn emosiynol, ac yn abl i weithio mewn sefyllfaoedd heriol gyda gonestrwydd a didwylledd. Mae angen i'r gweithlu gael mynediad at gymorth iechyd meddwl a goruchwyliaeth glinigol lle bo angen.

## Bod yn bartner

Cyd-gomisiynu gwasanaethau allgymorth pendant sy'n cynnwys arbenigwyr proffesiynol megis meddygon teulu, gweithwyr ym meysydd cyffuriau ac alcohol, a gweithwyr iechyd meddwl.

Darparu gwasanaethau allgymorth pendant mewn lleoliadau eraill, megis adrannau damweiniau ac achosion brys, a swyddfeydd heddlu.

Annog gweithio ar y cyd ac ymgysylltiad aml-ddisgyblaethol ar bob cyfle.

## Pethau y dylid ystyried eu newid:

Gofynnwyd i fynychwyr y grwpiau ffocws nodi'r hyn y credent fyddai angen ei newid ynghylch y system, er mwyn galluogi asiantaeth i gyflawni'r model allgymorth grymusol. Gweler isod am yr atebion mwyaf cyffredin.

Er nad yw hyn yn ffocws allweddol o'n gwaith, serch hynny mae'n ddefnyddiol i ystyried yr heriau posibl sy'n ein hatal ni rhag cyflawni allgymorth grymusol, ar gyfer datblygiad a gwaith yn y dyfodol.

- Mae'r canlyniadau'n unionlin, weithiau'n ddi-fudd ac yn rhy oddrychol. Mae'r canlyniadau cyfredol yn colli llawer o'r llwyddiannau bach ac yn cynhyrchu gormod o waith papur
- Mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau
- Efallai bod gwasanaethau wedi dod o hyd i ffordd o fod yn fwy hyblyg yn eu hagwedd, ond maent yn parhau i wynebu diffyg hyblygrwydd o gyfeiriad iechyd
- Mae trosiant ymhlith y staff yn effeithio'n andwyol ar adeiladu perthynas pobl â'i gilydd
- Adnoddau – cytundebau hirach, ariannol, capasiti "rhagor o bobl ar lawr gwlad", swyddogaethau arbenigol, heb gael eu gwanhau, canllawiau ymarfer gorau
- Swyddogion Cefnogi Cymunedau (PSCOs) ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd
- Dull anhyblyg o ddehongli'r arweiniad – mae hyn yn rhywbeth y bydd angen i'r arweiniad i'r Grant Cymorth Tai ei ystyried
- Dod o hyd i lety fforddiadwy / addas ar gyfer pobl, a hwnnw ar gael ar adeg pan fo pobl yn barod i ymgysylltu.



**John Griffiths AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

18 Hydref 2019

Annwyl John,

**Hawliau Plant yng Nghymru**

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i **hawliau plant yng Nghymru**.

Ddeng mlynedd ar hugain ers cychwyn y broses o lofnodi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad byr er mwyn adolygu effaith Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Roedd Mesur 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i brotocolau dewisol. O ganlyniad i'r Mesur, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth, polisïau neu benderfyniadau sy'n effeithio ar blant yn cydymffurfio â'u hawliau dynol.

Cafodd y Pwyllgor 26 o gyflwyniadau fel rhan o'i **ymgynghoriad cyhoeddus**, a gaeodd ym mis Medi 2019. Roedd y Pwyllgor hefyd am geisio barn plant a phobl ifanc drwy ei **adnodd "Cyfarfod mewn Blwch"**. Nod yr adnodd hwn oedd grymuso pobl ifanc i rannu eu barn ar hawliau plant, a hynny gan ddefnyddio cynllun gwers a oedd wedi'i lunio'n arbennig fel y gallai gweithwyr ieuenctid, athrawon ac arweinwyr grŵp ei ddefnyddio. Siaradodd y Pwyllgor yn uniongyrchol â phlant mewn nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru, a chymerodd dystiolaeth hefyd gan ystod o randdeiliaid yn ei gyfarfod ar **16 Hydref 2019**.

O ystyried pa mor berthnasol yw'r gwaith hwn i'ch cylch gwaith chi, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am y ffaith y bydd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymddangos gerbron y Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod ar 6 Tachwedd. Os ydych chi, neu unrhyw Aelod arall o'ch Pwyllgor, am gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, neu os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y cyfarfod dan sylw, dylech gysylltu â Chlerc y Pwyllgor.

Wrth gwrs, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi a byddwn yn rhannu unrhyw gynnyrch ysgrifenedig â chi.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**